

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Cynllun Iaith Gymraeg 2011 - 2014

CYNLLUN DIWYGIEDIG
Ebrill 2011

Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993



Cynllun Iaith Gymraeg

Cynllun Diwygiedig – Ebrill 2011

Paratowyd y Cynllun hwn dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a derbyniodd gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 16(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar XXXXXXXXXXXX

Medrir cael mwy o wybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yma neu unrhyw fater arall yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg gan:-

Alan Burkitt

Swyddog Cydraddoldebau

Adran Llywodraethu Corfforaethol

Y Ganolfan Ddinesig

Glynebwy

Blaenau Gwent

NP23 6XB

Ffôn: 01495 355108

E-bost: alan.burkitt@blaenau-gwent.gov.uk

Neu medrwyd lawrlwytho copi o wefan Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent: www.blaenau-gwent.gov.uk lle caiff gwybodaeth gyffredinol ar waith y Cyngor yn nhermau'r iaith Gymraeg ei amlinellu yn yr adran Cydraddoldeb.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill.

Cynnwys

Rhagair	Tudalen 4
Gweledigaeth y Cyngor	Tudalen 5
Cyflwyniad	Tudalen 6
Cynllunio a chyflenwi gwasanaeth	Tudalen 8
Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	Tudalen 13
Delwedd gyhoeddus y Cyngor	Tudalen 18
Gweithredu a monitro'r cynllun	Tudalen 26
Dysgu Cymraeg	Tudalen 27
Recriwtio	Tudalen 28
Cyfrifoldebau Statudol – Monitro	Tudalen 30
Delio gyda chwynion	Tudalen 32
Hyrwyddo y cynllun	Tudalen 33
Cynllun Gweithredu ac Amserlen	Tudalen 34
Dangosyddion Iaith Gymraeg	Tudalen 39
Atodiad 1 – Ystadegau ar yr Iaith Gymraeg o Gyfrifiad 2001	Tudalen 41
Atodiad 2 – Polisi Golygyddol/Cyfieithu y Cyngor	Tudalen 43
Atodiad 3 – Cynllun Gweithredu ac Amserlen Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	Tudalen 48

Rhagair

Cytunodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent ar 23 Ionawr 1998. Ei nod oedd darparu Gwasanaeth Iaith Gymraeg oedd yn diwallu anghenion y bobl sy'n siarad Cymraeg ym Mlaenau Gwent, p'un ai ydynt yn rhugl yn yr iaith, neu'n un o'r cannoedd lawer o oedolion a phobl ifanc sy'n dysgu'r Gymraeg yn ein Canolfannau Addysg Cymuned ac Ysgolion. Mae prif ffrydio'r Gymraeg i arferion gwaith y Cyngor yn ddarn mawr o waith ac er y bu cynnydd sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, mae gan y Cyngor lawer o waith ar ôl i'w wneud.

Mae Cydraddoldeb Iaith yn dod yn fwyfwy pwysig ar lefel Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Siarter Ewropeaidd dros Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol ar 27 Mawrth 2001. Yng Nghymru mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi nodi ei ymrwymiad i'r Gymraeg trwy Strategaeth Iaith; Iaith Pawb, ac yna'r ddogfen ymgynhorol "Iaith Fyw Iaith Byw" Strategaethau Iaith yw Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y Llywodraeth ac mae'n t i nodi strategaeth egniol i sicrhau y caiff y Gymraeg ei chefnogi a hefyd fod ganddi'r amgylchedd cywir ar gyfer ffynnu. Ymhellach mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Rhagfyr 2010 ac a dderbyniodd cymeradwyaeth Frenhinol ar y 9 Chwefror 2011 yn anelu i roi mwy o eglurder a chysondeb i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg. Hefyd yn y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, mae'r Gymraeg yn un o'r pedwar mater cydraddoldeb presennol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried yn eu gwaith beunyddiol.

Y Cynllun hwn yw'r trydydd gan yr Awdurdod ac mae'r Cyngor yn hyderus y bydd yn adeiladu ar y gwaith a gychwynwyd yn 1998 a hefyd yn sefydlu'r Gymraeg ymhellach yng ngwerthoedd craidd y Cyngor a chyfrannu at wella darpariaeth gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg dros y 3 mlynedd nesaf.



CYNGHORYDD D. HILLMAN
ARWEINYDD Y CYNGOR



D WAGGETT
PRIF WEITHREDWR

Gweledigaeth y Cyngor ar Gyfer yr Iaith Gymraeg

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru **yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail gyfartal**. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn:

- Cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis ba iaith i'w defnyddio yn eu hymwneud gyda'r Cyngor.
- Cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith.
- Cydnabod fod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da, nid goddefiad.
- Nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru, gan roi ystyriaeth i natur ieithyddol gynyddol y Fwrdeisdref Sirol.
- Cyfeirio'n benodol at y Gymraeg. Caiff unrhyw ieithoedd eraill eu cynnwys yn y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a pholisïau Cyfartaledd eraill y Cyngor.
- Cyfeirio at a lle'n briodol yn mabwysiadu egwyddorion a mesurau strategaethau cenedlaethol ar gyfer yr iaith sef y Siarter Ewropeaidd dros Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol, Cymal 32 Deddf Llywodraeth Cymru, Cynllun Iaith Gymraeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Llywodraeth Leol, Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru- Cynllun Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cymru Ddwylieithog a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent (a elwir 'y Cyngor' yn y cynllun hwn) yn gyfrifol am ddarparu holl wasanaethau llywodraeth leol o fewn ardaloedd Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent. Cafodd y Cyngor presennol ei ffurfio dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a daeth i rym ar 1 Ebrill 1996. Mae gan y Cyngor 42 aelod etholedig sy'n goruchwylio darpariaeth holl wasanaethau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gwasanaethu poblogaeth o tua 68,000 (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2009) ac yn cyflogi ychydig dros 4,000 o bobl. Dangosodd Cyfrifiad 2001 fod 9.5% o bobl 3 oed a throsodd yn medru siarad Cymraeg (gweler dadansoddiad o'r ffigurau yn Atodiad 1). Dengys ffigurau Cyfrifiad 2001 y bu cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n siarad Cymraeg ers cyhoeddi'r ffigurau Cyfrifiad diwethaf yn 1991 pan mai dim ond 2.4% o rai 3 oed a throsodd oedd yn siarad Cymraeg. Cafodd addysgu Cymraeg mewn ysgolion ac mewn canolfannau ar draws Blaenau Gwent effaith gadarnhaol ar yr iaith ym Mlaenau Gwent.

Darperir addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent ar lefel gynradd gan Ysgol Gymraeg Bro Helyg a agorwyd ym mis Medi 2010. Mae hon yn ysgol newydd sbon a agorwyd ym mis Medi 2010 ac mae 290 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd (yn cynnwys y Feithrinfa). Ar ôl cwblhau eu haddysg gynradd, gall disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg fynychu Ysgol Gyfun Gwynllyw yn awdurdod cyfagos Torfaen neu ysgol Cwm Rhymni yn awdurdod cyfagos Caerffili.

Dros y blynyddoedd gwnaeth yr Awdurdod gamau sylweddol ymlaen yn nhermau hyrwyddo'r Gymraeg:

- Sefydlu swydd Swyddog Iaith Gymraeg
- Creu Rhwydwaith Swyddogion Iaith Gymraeg
- Cyflwyno hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff ac Aelodau Etholedig

- Cyflwyno brand a hunaniaeth dwyieithog
- Cyhoeddi pob Hysbysiad Cyhoeddus yn ddwyieithog
- Cynhyrchu pob deunydd Etholiadol yn ddwyieithog
- Mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn ffurfiol yn 2009
- Lansio Menter Iaith mewn cysylltiad gyda Thorfaen a Sir Fynwy
- Lansio gwefan ddwyieithog ym mis Mai 2009
- Cynhyrchu 'Cyswllt', cylchgrawn y Cyngor yn ddwyieithog
- Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Y Gweithfeydd yng Nglynebwy ym mis Awst 2010
- Agorodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg ym mis Medi 2010 yn lle Ysgol Gymraeg Brynmawr.

Symudodd y Cyngor o lefel isel o ddarpariaeth yn y Gymraeg (e.e. cyhoeddi ac argraffu deunyddiau cyhoeddus, hysbysebion a chyhoeddusrwydd, neu nifer y staff dwyieithog a gyflogir) yn 1996 i lefel yn 2010 lle mae gwybodaeth safonol ym mron bob maes gwasanaeth yn ddwyieithog a lle mae cynhyrchu dogfennau newydd, gwefannau ac ati yn ddwyieithog yn dod yn norm.

Yn ystod y tair blynedd nesaf, bydd y Cyngor yn parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg staff am y Cynllun a hefyd faterion iaith Gymraeg yn gyffredinol er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cyhoedd sy'n siarad Gymraeg ym Mlaenau Gwent.

Cynllunio a Chyflenwi Gwasnaeth

Mae'r adran hon yn esbonio sut mae'r Cyngor yn cynnig cyflenwi ei wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhoi canllaw cyfreithiol i staff ar yr hyn a ddisgwylir ganddynt wrth gyflenwi eu gwasanaethau a hefyd yn rhoi manylion i ddefnyddwyr gwasanaeth yr hyn y dylent ei ddisgwyl gan y Cyngor.

Polisïau, Cynlluniau a Mentrau

Pan fo'r Cyngor yn datblygu polisïau, cynlluniau neu fentrau newydd neu'n diweddarau rhai presennol, bydd yn asesu'r canlyniadau ieithyddol i wneud yn sicr eu bod yn diwallu'r ymrwymadau yn y cynllun hwn, drwy ddefnyddio Dull Asesu Effaith Cydraddoldeb y Cyngor. Lle'n ymarferol, bydd y Cyngor yn defnyddio polisïau a chynlluniau newydd/wedi'u diweddarau i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Caiff staff sy'n gyfrifol am ysgrifennu neu ddiweddarau polisïau eu hysbysu am ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg a Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

Ni chaiff Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei newid heb gytundeb ymlaen llaw gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd Meysydd Gwasanaeth yn cyfrannu data at y dangosyddion Iaith Gymraeg a ddynodwyd dan fframwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg.



Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyflenwi ystod gyflawn o wasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru. Er mai amcan y Cyngor yw darparu gwasanaeth dwyieithog cyson ar draws pob maes gwasanaeth, caiff ei allu i wneud hynny ei gyfyngu gan y nifer o staff dwyieithog a gyflogir gan y Cyngor ar hyn o bryd. Felly blaenoriaeth y Cyngor yw:

- Gweithredu ei Strategaeth Sgiliau Ieithyddol er mwyn cyfnerthu ei ymdrechion i wella gwasanaethau rhyngpersonol drwy adolygu lefel y staff sy'n medru'r Gymraeg;
- Hyrwyddo prif ffrydio'r Gymraeg drwy Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb seiliedig ar wasanaeth i broses cynllunio busnes y Cyngor
- Sicrhau fod ei Ganolfan Gyswllt a derbynfydd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog systematig.
- Bod staff yn cael eu hysbysu am ofynion y cynllun Iaith Gymraeg ac yn derbyn hyfforddiant perthnasol adeg eu hanwythiad am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sensitifrwydd

Gwasanaethau a gyflenwir ar ran y Cyngor gan Bartïon Eraill

Ni chaiff pob gwasanaeth eu darparu'n uniongyrchol gan feysydd gwasanaeth y Cyngor; caiff rhai eu darparu ar ran y Cyngor gan asiantaethau trydydd parti neu gyrff sydd â chontract i'r Cyngor:

- Lle mae trydydd parti yn darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor, caiff y gwasanaethau hyn eu cyflenwi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae'r Cyngor yn gweitho i wella darpariaeth gwasanaeth dwyieithog drwy ei drefniadau gyda thrydydd partiön.
- Bydd hefyd yn sicrhau drwy ei drefniadau contractio (dogfennau ac ati) fod yr asiantaethau neu gontractwyr yn gweithredu elfennau perthnasol y cynllun wrth ddelio gyda'r cyhoedd.
- Gwneir darpariaeth i fonitro cydymffurfiaeth gyda rhannau perthnasol y Cynllun gan gontractwyr, asiantau a thrydydd partiön eraill gyda'r trefniadau monitro safonol cyfredol.

Medrir cael manylion pellach am Bolisi'r Cyngor ar Gydraddoldeb mewn Caffaeliad drwy ofyn i'r Tîm Caffaeliad Corfforaethol neu drwy anfon e-bost at: Corporate.procurement@blaenau-gwent.gov.uk.

Partneriaethau

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda chryf cyhoeddus eraill, cyrff gwirfoddol ac asiantaethau eraill mewn gwahanol ffyrdd ac ar lawer o lefelau, yn neilltuol i ddatblygu a gweithredu dogfennau strategol allweddol megis y:

- Strategaeth Gymunedol
- Cynllun Plant a Phobl ifanc
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Cynllun Datblygu Lleol.

Lle mae'r Cyngor yn arwain partneriaeth yn strategol a hefyd yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Lle mae'r Cyngor yn ymuno â phartneriaeth a gaiff ei harwain gan gorff arall, bydd mewnbyn y Cyngor i'r bartneriaeth yn cydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd y Cyngor yn annog partion eraill i gydymffurfio. Lle mae'r Cyngor yn gweithio fel rhan o gonsortiw, bydd yn annog y consortiw i fabwysiadu ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hunan neu gytuno i gydymffurfio gyda chynllun un o aelodau'r consortiw. Bydd y Cyngor hefyd yn annog partneriaid eraill i gydymffurfio yn yr un ffordd.



Lle mae'r Cyngor yn ffurfio neu'n ymuno â phartneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am gopi o'u cynllun iaith, polisi iaith neu ddisgrifiad o sut y bwriadant weithio'n ddwyieithog.

Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Cyngor yn goruchwylio, annog, galluogi, hwyluso neu gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun a chynnig cyngor a chymorth i'r sefydliad partner.

Nawdd a Grantiau

Wrth weinyddu cyllid a grantiau ar gyfer sefydliadau, bydd y Cyngor yn annog sefydliadau, cyrff gwirfoddol neu unigolion sy'n derbyn nawdd ariannol, grantiau neu ffioedd tanysgrifiad gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd. Mewn rhai achosion bydd darpariaeth ddwyieithog yn amod o ddyrannu grant, a phenderfynir hyn yn unol gyda dogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg "Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd". Yn yr un modd, lle mae'r Cyngor yn gwneud cais i gyrff eraill, bydd yn cynnwys gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'r cais hwnnw.

Swyddogaethau Rheoleiddiol

Bydd y Cyngor, wrth ymarfer swyddogaeth reoleiddiol megis dyfarnu trwyddedau a chaniatâd, yn annog unrhyw sefydliad, corff neu unigolyn i ddilyn ymarfer dwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau. Bydd yn gwneud hynny drwy nodi'r farn hon mewn unrhyw ddogfennau cais perthnasol a gyhoeddir i'w defnyddio ac yn nodi fod y Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg.

Safonau Gwasanaeth

Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd sydd o safon yr un mor uchel yn Gymraeg ag yn Saesneg.

Ymhellach, wrth sicrhau y caiff safonau ansawdd yn y Gymraeg eu cyflawni bydd y Cyngor yn:

- sicrhau fod gan unrhyw gyfieithwyr a ddefnyddir gymwysterau addas a/neu eu bod yn Aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac yn medru darparu gwasanaeth ansawdd uchel
- sicrhau y caiff y safonau a osodir o fewn strategaeth Technoleg Gwybodaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg eu hystyried ac os yn ymarferol y cânt eu defnyddio wrth ddatblygu strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor.

Delio Gyda'r Cyhoedd Sy'n Siarad Gymraeg

Gohebiaeth Ysgrifenedig

Mae croeso i'r cyhoedd ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dangosir hyn drwy gynnwys yr ymadrodd 'Croesewir gohebiaeth gan y cyhoedd yn Gymraeg neu Saesneg' ar bob papur pennawd newydd, dalenni cyfarch a dalenni ffacs.

Anfonir ateb Cymraeg i llythyrau Cymraeg a dderbynnir, yn ogystal ag unrhyw ffurflenni neu daflenni y gofynnir amdanynt (lle'n briodol, gall y ffurflenni a thafleuni hyn fod yn ddwyieithog). Bydd pob llythyr cydnabod, p'un ai a gânt eu cynhyrchu gan unigolyn neu drwy system awtomatig, yn dilyn y protocol.

Bydd yr amserlen gorfforaethol ar gyfer ymateb i ohebiaeth yr un fath ar gyfer llythyrau Cymraeg ag ar gyfer llythyrau Saesneg.

Os yw'r Cyngor yn gwybod fod yn well gan unigolyn, grŵp neu sefydliad dderbyn llythyrau yn Gymraeg, yna bydd y Cyngor yn anfon llythyrau Cymraeg.

Anfonir y trefniadau ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg at yr holl staff perthnasol. Dim ond y cyfieithwyr cymeradwy a enwir yn y ddogfen hon y caniateir eu defnyddio.

Fel arfer caiff llythyrau safonol i'r cyhoedd eu cyhoeddi'n ddwyieithog, heblaw lle mynegwyd dymuniad am ffurf ieithyddol neilltuol. Bydd meysydd gwasanaeth unigol yn cadw cofnod o ddewis iaith/fformat ar eu cronfeydd data rhestr bostio i'w defnyddio yn yr achosion hyn.

Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dilyn cyfathrebu wyneb-i-wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg hefyd yn Gymraeg, os nad yw'r sawl sy'n gohebu yn nodi fel arall.

Caiff cyfathrebu drwy e-bost ei drin yn yr un ffordd â gohebiaeth ysgrifenedig arall. Dim ond os yw'r aelod o staff yn ddwyieithog y bydd llofnodion dwyieithog awtomatig ac atebion dwyieithog awtomatig i negeseuon e-bost neu ar gyfer cyfeiriadau e-bost generig ar gyfer gwasanaethau penodol.

Mae manylion llawn o'r hyn sydd angen ei gyfieithu neu ei gynhyrchu'n ddwyieithog ar gael ym Mholisi Golygyddol Iaith Gymraeg y Cyngor (atodiad 3) yng nghefn y ddogfen yma.

Cyfathrebu ffôn

Mae'r ffôn yn un o'r prif ddulliau y mae aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn cyfathrebu gyda'r Cyngor. Mae croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ddelio gyda'r Cyngor dros y ffôn.

Er mwyn hwyluso hyn, caiff pob galwad eu hateb yn ddwyieithog:

“Bore da – good morning, prynhawn da – good afternoon, noswaith dda -- good evening”

Os yw'r person sy'n galw yn siarad Cymraeg ac na all y swyddog sy'n ateb siarad Cymraeg, bydd y swyddog yn esbonio hyn ac yn trosglwyddo'r galwad i berson sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, byddir yn hysbysu'r person sy'n galw y bydd swyddog sy'n siarad Cymraeg yn dychwelyd y galwad cyn gynted ag sydd modd.

Mae aelodau newydd o staff yn derbyn hyfforddiant ffôn anffurfiol pan fyddant yn ymuno â'r Cyngor. Caiff yr holl staff presennol gyfarwyddyd ar sut i drin galwadau ffôn gan bobl sy'n siarad Cymraeg. Mae manylion swyddogion a all ddelio gyda galwadau yn Gymraeg ar gael drwy'r cyfeiriadur ffôn mewnol. Caiff y rhestr hon ei diweddarau'n rheolaidd.

Bydd negeseuon peiriant ateb corfforaethol yn ddwyieithog ar bob amser ym mhob swyddfa. Dim ond os yw'r aelod o'r staff yn ddwyieithog y bydd negeseuon peiriant ateb llinell uniongyrchol a negeseuon ateb ffonau symudol yn ddwyieithog.

Bydd yr egwyddorion uchod o ddelio gydag ymholiadau ffôn yn gyffredin i bob safle cyhoeddus y mae'r Cyngor yn berchen arnynt, yn cynnwys depos, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a chanolfannau ymwelwyr.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mae'r Cyngor yn aml yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ar gyfer ymgynghori neu am ddibenion cyfreithiol neu bwrpasau eraill. Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

Gwahoddir y rhai sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, gwrandawiadau, ymholiadau neu drafodion cyfreithiol a drefnir gan y Cyngor y caniateir i'r cyhoedd siarad ynddynt, i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Bydd y Cyngor angen hysbysiad ymlaen llaw o ddewis iaith y rhai sy'n bwriadu mynychu er mwyn darparu cyfleusterau cyfieithu addas.

Gan na chyhoeddir dyddiad cyfarfodydd pwyllgor tan 3 diwrnod cyn cynnal y cyfarfod, dim ond y cyfnod hyn o rybudd y byddai'n caniatáu i aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad Cymraeg. Felly, gan gadw mewn cof hyd y rhybudd yma, ar rai achlysuron, medrai fod yn anodd trefnu dehonglydd. Os yw hyn yn digwydd, bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddiwallu'r cais drwy ddarparu aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i weithredu fel trydydd parti yn y cyfarfod.

Lle mae cyfres o gyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus, gwneir pob ymdrech i sicrhau fod hwyluswyr Cymraeg ar gael i'r rhai sydd wedi mynegi diddordeb mewn siarad Cymraeg. Bydd y Cyngor angen hysbysiad ymlaen llaw o ddewis iaith y rhai sy'n bwriadu mynychu er mwyn darparu gwasanaethau priodol.

Lle cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog, bydd y dogfennau'n gysylltiedig â'r cyfarfod yn ddwyieithog fel yr amlinellir ym Mholisi Golygyddol y Cyngor (atodiad 3).

Cyfarfodydd Eraill

Mae'r Cyngor yn trefnu ac yn cynnal llawer o gyfarfodydd wyneb-i-wyneb e.e. ymweliadau proffesiynol gan y cyhoedd, cyfweiliadau preifat, cyfarfodydd grŵp, cyfarfodydd safle, cynadleddau ac eraill. Bydd croeso i bobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r fath i wneud hynny; bydd y Cyngor yn diwallu'r angen ac yn darparu'r gwasanaeth yma drwy:-

- ganfod ymlaen llaw beth yw dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth
- gwneud trefniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth annerch cyfarfodydd yn Gymreg
- gwneir trefniadau i Swyddfeydd Cyngor heb siaradwyr Cymraeg i gael mynediad i staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn ymateb i geisiadau am gyfarfodydd yn Gymraeg.
- gwneud trefniadau i gyfieithydd ar y pryd fod ar gael.

Os trefnir cyfarfod wyneb i wyneb ar fyr rybudd a bod yr aelod o'r cyhoedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, gwneir pob ymdrech i sicrhau fod swyddog sy'n siarad Cymraeg ar gael. Mae rhestr o'r holl staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gyfeiriadur ffôn mewnol y Cyngor.

Gwefan y Cyngor

Mae gan y Cyngor wefan ddwyieithog. Sylweddolir bod angen gwelliannau i adran Gymraeg y wefan yma, a chymerir camau cynyddol priodol i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy Grŵp Ailddatblygu Gwefan y Cyngor. Byddwn yn parhau i adolygu a diweddarau'r wefan drwy gydol oes y Cynllun yn unol â Pholisi Golygyddol y Cyngor (atodiad 3).

Dulliau eraill o ddelio gyda'r Cyhoedd

Bydd y mesurau a nodir uchod yn weithredol i ddulliau eraill o ddelio gyda'r cyhoedd e.e. cyfathrebu cyfrifiadurol, cysylltiadau teledu neu systemau annerch cyhoeddus. Pan fydd yn datblygu ei strategaeth technoleg gwybodaeth, bydd y Cyngor yn cadw mewn cof a lle'n addas yn mabwysiadu'r mesurau a nodir yn Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.



Delwedd Gyhoeddus y Cyngor

Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor – yn cynnwys ei enw, cyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall – yn ddwyieithog. Defnyddir yr hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yma ar holl ddeunyddiau a nwyddau'r Cyngor, yn cynnwys penawdau llythyrau, dalenni cyfarch, memoranda, dalenni ffacs, cardiau busnes, bathodynau adnabod, arddangosiadau a chyhoeddiadau, yn ogystal ag ar arwyddion, cerbydau ac adeiladau'r Cyngor.

Rhoddir canllawiau ar fabwysiadau a defnyddio'r hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i staff, dylunwyr ac eraill sy'n atgynhyrchu delwedd gorfforaethol y Cyngor.

Arwyddion

Mae'r Cyngor yn sylweddoli fod darpariaeth arwyddion dwyieithog yn ffordd gadarnhaol a gweladwy o arddangos ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg. Bydd yr holl arwyddion mewnol ac allanol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ar eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys arwyddion dros dro a gaiff eu dangos am fwy nag un mis.

Daw arwyddion eraill - megis marciau ffordd ac arwyddion priffordd a gwybodaeth gyhoeddus - yn ddwyieithog fel y darperir arwyddion newydd



Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

neu amnewid arwyddion. Mae'n rhaid i arwyddion dros dro a ddarperir gan gontractwyr trydydd parti hefyd fod yn ddwyieithog. Bydd maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd testun ar bob math o arwyddion yn parchu egwyddor cydraddoldeb.

Bydd arwyddion newydd ac amnewid ar gerbydau'r Cyngor yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfatebol. Wrth enwi strydoedd newydd/datblygiadau tai newydd neu roi fersiynau dwyieithog o enwau presennol, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd rhoi ystyriaeth briodol i farn leol. Felly bydd yr enwau a fabwysiadir gan y Cyngor yn gydnaws gyda threftadaeth a hanes yr ardal ac fel rhan o'r broses yma byddir yn ymgynghori â Swyddog Treftadaeth y Cyngor a Thîm Safoni Enwau Lleoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Hysbyswyd datblygwyr allanol am bolisi'r Cyngor yng nghyswllt enwi strydoedd neu ddatblygiadau tai.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd statudol i gadw rhestrï cywir a chyfredol o enwau trefi, pentrefi, cymunedau a wardiau yn ogystal â datblygiadau newydd. Mae'r Cyngor wedi sicrhau fod ei restrï o safon uchel ac, mewn ymgynghoriad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, wedi cynnal archwiliad yn ddiweddar o'r rhestrï y mae'n eu cadw a bydd yn eu safoni lle bo angen.

Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau Cyhoeddus a Dogfennau

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ac yn argraffu nifer sylweddol o ddeunyddiau cyhoeddus ar ffurf ddwyieithog. Bydd swyddogion yn defnyddio'r Polisi Golygyddol (atodiad 3) fel canllaw i benderfynu os dylai dogfen gael ei chynhyrchu'n ddwyieithog ai peidio.

Lle bernir fod angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfen, bydd pob un yn cynnwys datganiad fod fersiwn ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddwy fersiwn o ansawdd cyfartal a byddant ar gael ar yr un pryd.

Os codir tâl am ddogfen, bydd hyn yr un fath ar gyfer pob fersiwn o'r ddogfen, p'un ai'n Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.

Rhoddir canllawiau ysgrifenedig yn amlinellu'r weithdrefn ar gyfer delio gyda chyhoeddiadau dwyieithog i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr.



Ffurflenni a Deunydd Esboniadol

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu ffurflenni ar bapur ac ar y wefan i'r cyhoedd i'w defnyddio.

Mewn achosion lle ystyrir bod fersiynau ar wahân yn Gymraeg a Saesneg yn briodol, caiff y ddau fersiwn eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd, a byddant ar gael yn gyfartal, fel arfer gyda neges yn dweud fod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

Mae canllawiau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gael i staff ac eraill sy'n ymwneud â dylunio a chynhyrchu ffurflenni drwy gyfeirio at ei Ganllawiau Dylunio Dwyieithog yn: www.byig-wlb.org.uk.

Mae enghreifftiau o ffurflenni o'r fath yn cynnwys:-

- Gwahoddiadau
- Posteri
- Sieciau
- Trwyddedi
- Bwydlenni
- Derbynebaw
- Anfonebau
- Mapiau
- Amserlenni
- Talebau
- Cardiau Galw



Caiff ffurflenni a deunydd esboniadol eu hadolygu'n barhaus a'u monitro fel rhan o'r broses fonitro chwarterol. Lle mai dim ond yn Saesneg mae ffurflenni/deunydd esboniadol ar gael ar hyn o bryd, bydd y maes gwasanaeth yn paratoui cynllun gweithredu gyda dyddiad targed ar gyfer darparu'r ffurflenni/deunydd esboniadol ar ffurf ddwyieithog.

Datganiadau i'r Wasg

Mae datganiadau i'r wasg yn un o'r prif ffyrdd y mae'r Cyngor yn lledaenu gwybodaeth a newyddion yn rheolaidd i'r cyfryngau. Fel arfer dim ond yn Saesneg y cyhoeddir datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru. Cyhoeddir fersiwn Cymraeg i'r cyfryngau Cymraeg os yw'r pwnc yn ymwneud â'r iaith Gymraeg e.e. yr Eisteddfod a'r Ddeddf ei hunan ac ati.

Bydd y Cyngor yn sicrhau y caiff unrhyw ddigwyddiadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal i hyrwyddo'r Gymraeg, e.e. cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi, ymweliadau ar gyfer siaradwyr/dysgwyr Cymraeg, grwpiau trafod/darllen Cymraeg mewn llyfrgelloedd ac ati, eu hyrwyddo drwy'r cyfryngau Cymraeg.

Gwneir trefniadau i swyddogion dwyieithog fod ar gael ar gyfer cyfweiliadau gyda'r cyfryngau.

Hysbysebu a Chyhoedduswydd

Lle mae'r Cyngor yn rhoi cyhoedduswydd i'w weithgareddau a gwasanaethau o fewn Cymru drwy arddangosfeydd, arddangosiadau a chyflwyniadau, bydd yn gwneud hynny'n ddwyieithog. Fodd bynnag, gall arddangosiadau gynnwys eitemau o lenyddiaeth nad ydynt ar gael yn Gymraeg e.e. llenyddiaeth gan drydydd parti.

Bydd gwasanaethau neu asiantau'r Cyngor yn trefnu arddangosfeydd lleol, stondinau gwasanaeth cyhoeddus ac arddangosiadau o bryd i'w gilydd a bydd y cyflwyniad yn ddwyieithog.

Caiff llenyddiaeth megis llyfrynau, pamffledu a thafenni a gynlluniwyd i hyrwyddo, rhoi cyhoedduswydd neu esbonio cynlluniau, polisïau, gweithdrefnau, deddfwriaeth neu wasanaethau, eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

Os yw'r Cyngor yn cynnal ymgyrch hysbysebu neu hyrwyddo yng Nghymru drwy'r wasg, teledu, radio, sinema, poster, hysbysfyrddau, negeseuon electronig neu systemau annerch cyhoeddus, bydd yn defnyddio'r ddwy iaith ac yn penderfynu ar y trefniadau yn ôl y pwnc, deunydd, y dulliau a ddefnyddir a'r gynulleidfa darged.

Lle'n addas, bydd y Cyngor yn defnyddio'r wasg Gymraeg megis Y Cymro, Golwg a'r papurau bro, ar gyfer hysbysebu ac ymgyrchoedd hyrwyddo yng Nghymru.

Caiff staff ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio a chynnal ymgyrchoedd hysbysebu, cyhoedduswydd neu ymchwil i'r farchnad eu hysbysu am ofynion y Cynllun a rhoddir cyfarwyddyd iddynt ar eu gweithrediad.

Bydd yr un telerau ac amodau yn weithredol ar gyfer cynhyrchu arolygon cyhoeddus, gydag eithriad posibl prosiectau ymchwil sylfaenol mawr megis arolygon preswylwyr. Hyd yn oed wedyn gwneir pob ymdrech i sicrhau fod dinasyddion yn cael cyfle i gynnal arolygon yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Amlinellir union fanylion yr hyn y dylid ei gyfieithu ym Mholisi Golygyddol y Cyngor – Atodiad 3.



Hysbysiadau Cyhoeddus Swyddogol a Hysbysebion Recriwtio

Er mwyn cynnal ei fusnes, mae'n rhaid i'r Cyngor hysbysebu mewn papurau newydd i hysbysu'r cyhoedd o'i ofynion cyfreithiol, etholiadol, cynllunio a chyffelyb. Bydd hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus sy'n ymddangos yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd hysbysiadau a hysbysebion mewn papurau newydd a chylchgronau Cymraeg yn Gymraeg yn unig a bydd y rhai a gyhoeddir ym mhrif bapurau newydd a chylchgronau'r Deyrnas Unedig yn Saesneg yn unig fel arfer. Bydd pob hysbyseb a hysbysiad cyhoeddus a gyhoeddir mewn papurau newydd lleol yng nghyswllt gwasanaethau'r Cyngor yn ddwyieithog.

Lle bo hysbysebion recriwtio'n ymddangos yn Saesneg yn unig defnyddir dyluniad dwyieithog corfforaethol y Cyngor, ond caiff swyddi lle mae'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol/dymunol eu hysbysebu yn Gymraeg (gyda chrynodeb Saesneg). Caiff y canran o swyddi a hysbysebir yn Gymraeg ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol/dymunol ei adolygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn unol gyda'r camau gweithredu a gynhwysir yn Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cyngor.

Mae micro safle recriwtio allanol y Cyngor yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd. Yn y dyfodol agos caiff hyn ei redeg yn fewnol ar safle rhyngwladol y Cyngor a fydd yn sicrhau'n awtomatig y bydd yn ddwyieithog.

Rhoddir canllawiau diwygiedig ar weithredu'r mesurau hyn i staff sy'n ymwneud â dylunio a chynhyrchu hysbysiadau cyhoeddus swyddogol a hysbysebion recriwtio, gan gadw mewn cof swyddi a all fod yn cynnwys y Gymraeg fel sgil hanfodol dymunol neu heb fod yn berthnasol.

Y Broses Ddemocrataidd

Dan Gyfansoddiad y Cyngor, gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno cwestiynau cyn cyfarfodydd y Cyngor, ac ymatebir iddynt yn ffurfiol o fewn y cyfarfod. Bydd aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno cyflwyno cwestiynau drwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn atebion ffurfiol i'w cwestiynau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfarfodydd.

Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Staffio

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol 2009-2012 (Atodiad 4) er mwyn sicrhau dros gyfnod y gall y Cyngor gyflenwi ei wasanaethau yn Gymraeg i safon uchel yn effeithlon ac effeithiol.

Mae Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cyngor yn anelu i fod yn gydnaws â Fframwaith Gwella Cydraddoldeb a bydd yn cynnwys recriwtio a dethol, ffocws cwsmeriaid, datblygu pobl, cydraddoldeb, rheoli perfformiad, caffael pobl a chysylltiadau staff a bydd yn sylfaen i Gynllun Gwella'r Awdurdod.

Mae'r Strategaeth yn rhan gyfannol o weithredu'r cynllun hwn, ac mae ganddo felly awdurdod llawn y Cynllun a chefnogaeth y Cyngor. Mae'r Strategaeth ar ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor o'r adran Cydraddoldebau: - www.blaenau-gwent.gov.uk

I sicrhau fod nifer ddigonol o staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaeth dwyieithog mewn gweithleoedd sydd â chyswllt gyda'r cyhoedd, bydd y Cyngor yn cymryd y camau a amlinellwyd yn Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cyngor fel sy'n dilyn:

- Bydd angen i adrannau adolygu eu strwythurau staffio ac asesu pa swyddi a fyddai'n debygol o gael cyswllt gyda siaradwyr Cymraeg neu effeithio arnynt.
- Byddai angen cymryd pendrefyniad pellach os oedd hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol o fewn y swyddi neilltuol hynny.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal archwiliad dechreuol i ganfod y nifer o staff sy'n siarad Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg a lle maent o fewn y sefydliad.
- Bydd y Cyngor wedyn yn cymharu anghenion sgiliau gyda'r adnoddau sgiliau presennol yn ôl maes gwasanaeth. Ar ôl nodi unrhyw ddiffyg mewn sgiliau dwyieithog, ac unrhyw sgiliau sydd ar gael nad ydynt yn cael eu defnyddio neu gael eu

defnyddio'n llawn ar hyn o bryd, bydd Penaethiaid Gwasanaeth wedyn yn symud ymlaen i ystyried yr ystod o opsiynau sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â'r mater yn unol gyda'u Strategaeth Sgiliau Ieithyddol.

Mae llawer o sgiliau sydd angen eu hystyried pan fo'r Cyngor yn recriwtio staff ar bob lefel. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn un o'r sgiliau a gaiff ei hystyried wrth wneud apwyntiadau.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau, gyda llawer ohonynt angen sgiliau proffesiynol a thechnegol i'w gweithredu. Y nod, dros gyfnod ac fel y cwyd cyfleoedd, fydd sicrhau carfan o swyddogion a all helpu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg o fewn gwasanaeth integredig - Grŵp Gwasanaethau Iaith Gymraeg.

Dysgu Cymraeg - Y Gymraeg yn y Gweithle

Mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi ac yn annog aelodau o staff, ac Aelodau etholedig, sy'n dymuno dysgu neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg ac mae'n falch i weld staff yn gweithio'n ddwyieithog.

Datbygwyd y rhaglen hyfforddiant gan y Swyddog Cydraddoldebau yn dilyn ymgynghoriad gyda dysgwyr presennol a Choleg Gwent fel ein darparrydd hyfforddiant.

Cymerir camau i ganfod anghenion ac amcanion hyfforddiant pob gwasanaeth a chyflogeion unigol. Bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn asesu'r anghenion penodol ar gyfer dysgu a gwella sgiliau Cymraeg ymysg eu staff a lle dynodir angen, caiff hyfforddiant ei gynnig a'i drefnu yn ôl gofynion y gwasanaeth a'r adnoddau sydd ar gael.

Disgwylir i staff sy'n derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i ddilyn asesiadau/arholiadau a gweithio i ennill cymwysterau perthnasol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd pa mor gyflym y gall swyddogion ac aelodau ddysgu Cymraeg yn amrywio ac y bydd hynny'n cael effaith uniongyrchol ar y targedau a roddwyd ar gyfer gweithredu mesurau penodol o fewn y Cynllun.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gall swyddogion dwyieithog presennol ei wneud drwy helpu ag annog dysgwyr Cymraeg i ymarfer eu Cymraeg yn eu hamgylchedd gwaith.

Bydd y Cyngor yn ymchwilio cyfleoedd am e-ddysgu i annog dysgwyr i ddysgu Cymraeg drwy ddefnyddio gwefannau rhyngweithiol a Chronfa Ddysgu Blaenau Gwent.

Recriwtio

Caiff gallu ieithyddol ei ystyried fel un o nifer o sgiliau perthnasol wrth penodi staff.

Fel canlyniad i Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cyngor, bydd angen i bob maes gwasanaeth edrych ar anghenion gwasanaeth a sicrhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer recriwtio siaradwyr dwyieithog. Drwy wneud hynny, byddant yn ystyried y sefyllfaoedd lle mae recriwtio swyddogion dwyieithog yn hanfodol neu'n ddymunol a nodir hyn mewn hysbysebion swydd.

Mewn amgylchiadau lle mae'n profi'n anodd penodi staff addas sy'n siarad Cymraeg, yr arfer fydd un ai:

- Gwneud apwyntiad sy'n cynnwys ymrwymiad i ddysgu Cymraeg i safon benodol ac o fewn amserlen a nodir gyda chefnogaeth y Cyngor, neu
- Ad-drefnu'r gwasanaeth neu nodi trefniadau eraill o fewn meysydd gwasanaeth i ddarparu'r sgil yn y gweithle drwy ddefnyddio sgiliau ieithyddol staff presennol mewn meysydd gwasanaeth eraill.

Hyfforddiant Galwedigaethol

Lle dynodwyd bod angen hyfforddiant galwedigaethol, ac y medrir darparu hyfforddiant addas, caiff ei ddarparu neu ei gefnogi yn ôl gofynion y gwasanaeth. Gall darpariaeth hyfforddiant gynnwys cyrsiau mewn sgiliau neilltuol megis gairbrosesu, cyfieithu, cyfathrebu gyda'r cyfryngau ac ati. Cynhelir cyrsiau anwytho mewn rhai meysydd arbenigol (megis Gwasanaethau Cymdeithasol neu ddyletswyddau Cofrestrydd) a mynediad i adnoddau perthnasol a phhecynnau dysgu o bell.

Caiff yr angen am hyfforddiant galwedigaethol hefyd ei gysylltu gyda gweithrediad y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel y gall unrhyw staff a benodir i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol dderbyn hyfforddiant penodol yn y Gymraeg yn gysylltiedig â'r swydd honno.

Cyfrifoldebau

Cafodd y Cynllun fel y'i diweddarwyd ei gymeradwyo gan y Cyngor Bwrdeisdref Sirol ac mae gan ei weithrediad awdurdod llawn y Cyngor. Caiff gweithrediad beunyddiol y Cyngor ei wneud gan y Tîm Rheoli Corfforaethol. Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am sicrhau y gweithredir y Cynllun ym mhob rhan o wasanaethau'r Cyngor. Bydd y Prif Weithredwr, drwy'r Pennaeth Perfformiad a Datblygu Polisi, y Swyddog Cydraddoldebau a'r Rhwydwaith Cydraddoldebau Corfforaethol, yn cynghori Cyfarwyddwyr Corfforaethol ar y camau sydd eu hangen i gefnogi a bod yn sylfaen i Gynllun Gwella'r Awdurdod. Mae angen hyn er mwyn gweithredu'r Cynllun ym mhob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor.

Bydd Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth felly'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun o fewn eu gwahanol feysydd gwasanaeth. Caiff aelodau staff eu hysbysu am ofynion y Cynllun a bydd canllawiau ar gael ar safle mewnwyd y Cyngor.

Cynhyrchir canllawiau atodol (yn dilyn ymgynghoriaeth llawn a phriodol) i roi gwybodaeth a chynghor manwl ac ychwanegol i staff ar bynciau neilltuol yn cyfeirio at weithrediad y Cynllun. Bydd gan unrhyw ganllawiau atodol o'r fath awdurdod llawn y Cynllun yma.

Cyfrifoldebau statudol - monitro

Mae gan Swyddog Monitro'r Cyngor gyfrifoldeb statudol am sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu mewn modd cyfreithlon ac nad yw'n gwneud unrhyw beth a fedrai achosi camweinyddu neu anghyfiawnder i unrhyw unigolyn.

Mae'r gyfraith yn gwneud y Swyddog Monitro'n gyfrifol am weithredu cod ymddygiad yr Aelodau, Pwyllgor Safonau'r Cyngor a Chyfansoddiad y Cyngor.

Swyddog Monitro'r Cyngor yw:

Dylan John

Prif Swyddog Cyfreithiol a Chefnogaeth Gorfforaethol

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Swyddfeydd Bwrdeisiol

Y Ganolfan Ddinesig

Glynebwy

Blaenau Gwent

NP23 6XB.

Bydd monitro'r cynllun yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus a bydd yn ymestyn i'r rhai sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran y Cyngor. Cyflawnir hyn drwy adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu Cyllid, Gwella a Pherfformiad ar Gynlluniau Gwella Maes Gwasanaeth. Bydd hyn yn sicrhau y nodir datblygiadau, cadarnhaol neu fel arall, ac y cânt eu trin yn rheolaidd ar lefel Aelod. Os oes unrhyw faterion yn deillio o'r cynllun hwn, cysylltwch â'r person dilynol os gwelwch yn dda:

Alan Burkitt

Swyddog Cydraddoldebau

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Y Ganolfan Ddinesig

Glynebwy

NP23 6XB

01495 355108

alan.burkitt@blaenau-gwent.gov.uk

Bydd y Cyngor yn croesawu ac yn cofnodi awgrymiadau ar gyfer gwelliannau ac yn hysbysu'r cyngor sut y dylent roi eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymreg.

Yn ogystal â monitro mewnol ac adroddiadau rheolaidd, bydd y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol yn y ffurf a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, fydd yn gwerthuso cydymffurfiaeth a pherfformiad wrth weithredu'r cynllun ar draws gwasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor. Hyn fydd y weithdrefn adrodd ar gyfer cydymffurfiaeth gyda'r Cynllun yn ystod cyfnod tair blynedd y cynllun ac fe'i hanfonir at Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol erbyn diwedd mis Mehefin.

Bydd y Cyngor yn crynhoi ei ganfyddiadau ar ffurf naratif byr (gyda thystiolaeth) i'w gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a bydd yn nodi unrhyw wendidau/risgiau sylfaenol, ac yn llunio cynllun weithredu o fesurau cywirol, ynghyd ag amserlen. Bydd y Cyngor hefyd yn tynnu sylw at gynnydd, arfer da a lefelau cydymffurfiaeth. Cytunir ar gynllun gweithrediadau gyda'r Bwrdd lle mae gwendidau.

Ymchwiliadau dan Adran 17

Dywed Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg y gall Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynnal ymchwiliad er mwyn canfod p'un a fu methiant lle ymddengys i'r Bwrdd y gall corff cyhoeddus fod wedi methu gweithredu cynllun a gymeradwywyd gan y Fwrdd.

Os yw'n ofynnol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gynnal ymchwiliad dan Adran 17, bydd y Cyngor yn paratoi i gydweithredu'n llawn drwy roi adroddiadau gwybodaeth, dogfennau neu eglurhad i'r Bwrdd.

Bydd y Cyngor yn barod i wneud hyn yn llafar ac mewn ysgrifen a bydd hefyd yn caniatáu i'r Bwrdd gael trafodaethau gyda:-

- Aelodau etholedig
- Staff yr Awdurdod Lleol
- Darparwyr a gweithwyr gwasanaethau contract
- Unrhyw unigolion sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflenwi ei wasanaethau

Delio gyda Chwynion

Caiff cwynion a dderbynnir yn y Gymraeg am faes gwasanaeth penodol eu trin gan y maes gwasanaeth hwnnw mewn cysylltiad gyda'r Swyddog Cwynion fel y byddai cyn yn Saesneg, gyda'r angen ychwanegol i gyfieithu'r holl ohebiaeth a dderbyniwyd ac a anfonwyd ar y mater – caiff sylwadau'n ymwneud â'r cynllun hwn (yn Gymraeg neu yn Saesneg) eu cyfeirio at y Swyddog Cydraddoldebau.

Bydd pob Cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am fonitro cwynion a rhoddir adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor Craffu Cyllid, Gwella a Pherfformiad. Medir gwneud cwynion drwy ysgrifennu, dros y ffôn neu drwy e-bost – nodir y rhifau cyswllt meysydd gwasanaeth yn nogfen y Cyngor "Eich Llais yn Cyfri".

Hyrwyddo'r Cynllun

Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoedduswydd cynhwysfawr i'w Gynllun Iaith Gymrag ar sail barhaus. Bydd yn sicrhau fod pobl sy'n delio gyda'r Cyngor yn gwybod am y cynllun a'i gynnwys a sut y medrant ddelio gyda'r Cyngor yn y Gymraeg.

Defnyddir y dulliau defnyddiol o gyhoedduswydd:

- Hysbysiadau mewn swyddfeydd cyhoeddus, derbynfeydd, ac ati;
- Cyhoeddi taflen yn rhoi manylion ymrwymiad a gwasanaethau'r Cyngor yn y Gymraeg;
- Datganiadau i'r wasg;
- Eitemau ym mhapur newydd a chyhoeddiadau eraill y Cyngor;
- Cylchredeg gwybodaeth a chanllawiau i staff;
- Dosbarthu copïau o'r cynllun i asiantau a chontractwyr y Cyngor;
- Dosbarthu copïau o'r cynllun i gyrff eraill â diddordeb; a
- Chyhoeddi gwybodaeth yn electronig ar wefan y Cyngor.

Hyrwyddo Gwasanaethau Dwyieithog

Bydd y Cyngor hefyd yn hyrwyddo ei wasanaethau yn y Gymraeg i'r cyhoedd a'i staff ac asiantau ar sail reolaidd a pharhaus.

Bydd yn sicrhau fod pobl sy'n delio gyda'r Cyngor yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg drwy ymgyrchoedd cyffredinol ac ymgyrchoedd hyrwyddo penodol.

Defnyddir yr un dulliau cyhoedduswydd yn y cyswllt hwn ag ar gyfer yr uchod a rhoddir cyngor i staff perthnasol.

Mewn partneriaeth gyda Thorfaen a Sir Fynwy, mae'r Cyngor wedi sefydlu Menter Iaith sy'n annog hyrwyddo'r Gymraeg yn y meysydd hyn.

Cynllun Gweithredu

Cynllunio a chyflenwi gwasanaeth

Polisiâu, Cynlluniau a Mentrau

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
1	Datblygu a gweithredu system newydd i gynnal asesiad effaith cydraddoldeb ar wasanaethau neu bolisiau'r Cyngor, gan roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg fel nodwedd benodol.	2011/2012
2.	Sicrhau y caiff dyletswyddau ynghylch y Gymraeg eu hystyried yn llawn fel rhan o'r datblygiad tuag at Gynllun Cydraddoldeb Sengl y Cyngor.	2011/2012

Cyflenwi Gwasanaethau

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
3.	Sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r Gymraeg ac y rhoddir adroddiadau ar hynny fel rhan o gynllunio busnes gwasanaeth.	2012/13
4.	Cyhoeddi taflen yn rhoi manylion ymrwymiad y Cyngor ar y Gymraeg, gan roi sylw i enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd.	2012/13

Gwasanaethau a gyflenwir ar ran y Cyngor gan Bartïon Eraill

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
5	Cynnal adolygiad o'r broses dendro a dogfennau tendro a ddarperir gan y Cyngor, yn unol â Dangosydd 1 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG 1)	2011/12

Delio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Cyfathrebu Ffôn

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
6	Annog yr holl staff i ateb galwadau ffôn allanol yn ddwyieithog.	2011/2014

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
7	Sicrhau bod dewis iaith ar gael yng nghyfarfodydd y Cyngor.	2012/13

Gwefan y Cyngor

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
8	Cynyddu'r canran o dudalennau gwe ar y wefan sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (heb gynnwys dogfennau y medrir eu lawrlwytho) yn unol â Dangosydd 3 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG 3).	2011-14
9	Datblygu adran recriwtio ddwyieithog ar wefan y Cyngor, yn unol â Dangosydd 3 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG 3).	2013-14
10	Sicrhau y caiff y safonau a osodwyd o fewn Strategaeth Technoleg Gwybodaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg eu hystyried ac os yn ymarferol eu mabwysiadu wrth ddatblygu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor.	2011-2014

Delwedd gyhoeddus y Cyngor

Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau Cyhoeddus a Dogfennau

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
11	Cyhoeddi'r polisi golygyddol a'r canllawiau cyfieithu ar draws y Cyngor.	2011-2012
12	Gweithio gyda meysydd gwasanaeth ar oblygiadau'r polisi golygyddol.	2011-2014
13	Cyhoeddi canllawiau atodol yn gorfforaethol neu i feysydd gwasanaeth ar feysydd penodol o waith i gefnogi gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.	2011-2014

Hysbysiadau Cyhoeddus Swyddogol a Hysbysebion Recriwtio

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
14	Datblygu adran recriwtio ddwyieithog ar wefan y Cyngor, yn unol â Dangosydd 3 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG 3).	2013-14

Gweithredu a monitro'r cynllun

Staffio

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
15	Cyflenwi'r cynllun gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith.	2011-2012
16	Gweithio gyda phob adran i sefydlu cofnod o staff gyda sgiliau yn y Gymraeg, yn unol â Dangosydd 5 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG 5)	2011-2014
17	Gweithio gyda phob adran i sefydlu cofnod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg ar draws y Cyngor i fedru cynnig mynediad i wasanaethau yn eu dewis iaith i ddinasyddion sy'n medru'r Gymraeg ym Mlaenau Gwent, yn unol â Dangosydd 5 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG 5).	2011-2014
18	Cynnal archwiliad yn edrych ar Recriwtio a Detholiad yn unol â Dangosydd Iaith Gymraeg 2 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG 2).	2012-2013
19	Cadw cofnod cyfredol o staff sydd wedi manteisio o Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth, yn unol â Dangosydd 2 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG4a a 4b).	2011-2014

Dysgu'r Gymraeg

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
20	Ystyried a hyrwyddo'r opsiynau ar gyfer hyfforddiant yn y Gymraeg ar draws y Cyngor, yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol.	2011-2014

Cyfrifoldebau statudol - monitro

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
20	Cynhyrchu adroddiad monitro a gwella blynyddol wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	2011-2014

Delio gyda chwynion

Rhif	Cam Gweithredu	Amserlen
21	Monitro nifer y cwynion a dderbyniwyd yng nghyswllt gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg, yn unol â Dangosydd 6 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (DIG 6).	2011-2014
22	Delio gyda chwynion a dderbynnir yn y Gymraeg yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor, yn unol â Dangosydd 6 Bwrdd yr Iaith Gymraeg (WL1 6).	2011-2014

Dangosyddion Iaith Gymraeg

Un o elfennau allweddol Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod yw sefydlu gweithdrefn ar gyfer casglu, cofnodi a monitro Dangosyddion Perfformiad a nodir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae angen rhoi adroddiad ar y dangosyddion hyn i Fwrdd yr Iaith Gymraeg fel rhan o'i Weithdrefn Adrodd flynyddol.

Y Dangosyddion Perfformiad yw:-

(DIG 1) Caffaeliad

Monitro nifer a % y sampl o'r trydydd partion a gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio gyda gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg yn y meysydd dilynol:-

- Gwasanaethau gofal,
- Gwasanaethau ieuenctid,
- Darpariaeth cyn-ysgol.

(DIG 2) Recriwtio a Dethol

Cynnal ymarferiad gyda Rheolwyr Adnoddau Dynol a Gwasanaethau i ddynodi swyddi ym mhob maes gwasanaeth lle caiff sgiliau yn y Gymraeg eu hasesu fel bod un ai'n hanfodol neu'n ddymunol.

(DIG 3) E-lywodraeth

Gweithio i sicrhau fod materion ynghylch y Gymraeg yn rhan ganolog o holl brosiectau e-lywodraeth a datblygu gwefan e.e. sicrhau fod opsiynau Cymraeg ar bob system alw, sgrin gyffwrdd, gwasanaeth ac yn y blaen.

(DIG 4a) Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle

Staff a dderbyniodd hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster penodol.

- Nifer
- Canran
- Cymhwyster (gradd ac ati)

(DIG 4b) Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Staff a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

- Nifer
- Canran

(DIG 5) Gallu ieithyddol

Staff a all siarad Cymraeg

- Nifer
- Canran
- Lefel rhugledd (rhugl, canolraddol, sylfaenol, dysgwr)
- Adran gwasanaeth
- Swydd/gradd
- Lleoliad gweithle.

(DIG 6) Safonau gwasanaeth

- Nifer cwynion a dderbyniwyd yng nghyswllt gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg.
- Y % a gafodd eu trin yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor.

Atodiad 1. YSTADEGAU IAITH GYMRAEG O GYFRIFIAD 2001

1.1 Mae'r tabl islaw'n dangos nifer a chanran y boblogaeth 3 oed a throsodd sy'n medru siarad Cymraeg yn ôl ward etholiadol.

Enw swyddogol yr adran Etholiadol	Grŵp Oedran	NIFER			%
		Nifer Pobl	Medru siarad Cymraeg	Dim yn medru siarad Cymraeg	Medru siarad Cymraeg
Abertyleri	3 a throsodd	4358	456	3902	10.5
Badminton	3 a throsodd	3095	276	2819	8.9
Beaufort	3 a throsodd	3751	440	3311	11.7
Blaenau	3 a throsodd	4679	483	4196	10.3
Brynmawr	3 a throsodd	5420	511	4909	9.4
Cwm	3 a throsodd	4188	407	3781	9.7
Cwmtyleri	3 a throsodd	4595	442	4153	9.6
Glyn Ebwy Gogledd	3 a throsodd	4588	376	4212	8.2
Glyn Ebwy De	3 a throsodd	4065	346	3719	8.5
Georgetown	3 a throsodd	3377	329	3048	9.7
Llanhilledd	3 a throsodd	4602	407	4195	8.8
Nantyglo	3 a throsodd	4127	396	3731	9.6
Rhasau	3 a throsodd	3190	281	2909	8.8
Sirhywi	3 a throsodd	5348	518	4830	9.7
Six Bells	3 a throsodd	2562	239	2323	9.3
Tredegwr Canol a Gorll	3 a throsodd	5854	514	5340	8.8
Blaenau Gwent	3 a throsodd	67799	6421	61378	9.49

Ffynhonnell:- Swyddfa Ystadegau Gwladol- Cyfrifiad 2001

1.2 Mae'r tabl yma'n dangos cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers y cyhoeddwyd ffigurau'r Cyfrifiad diwethaf yn 1991 pan mai dim ond 2.4% o rai 3 oed a throsodd oedd yn medru siarad Cymraeg. Mae hefyd yn arwyddocaol mai Blaenau Gwent sydd â'r ffigurau mewnfudo ac allfudo isaf o blith y 21 awdurdod lleol yng Nghymru.

Atodiad 2 - Polisi Golygyddol Cymraeg Cyngor Blaenau Gwent

Canllawiau ar pa ddogfennau a chyhoeddiadau fod yn ddwyieithog (neu yn Gymraeg ac yn Saesneg)

Nod Cyngor Blaenau Gwent maes o law yw darparu gwasanaethau dwyieithog llawn. Ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn rydym yn cymryd dull wedi'i dargedu sydd ei angen i sicrhau gwelliant dros gyfnod.

Daw dogfennau i un o dri categori, A, B neu C. Dylai dogfennau yng nghategori A gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog a gall y rhai yng nghategori C gael eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig. Dylid dilyn y canllawiau a nodir islaw ar gyfer deunyddiau yng nghategori B.

Categori A: Eitemau a gaiff bob amser eu cynhyrchu mewn fformat dwyieithog.

Categori B: Eitemau a all yn dibynnu ar yr amgylchiadau fod yn:-

- i) ddwyieithog
- ii) cynnwys cyfran yn Gymraeg
- iii) ar gael yn Gymraeg os gwneir cais

Categori C: Mae'n gyffredinol dderbyniol i gynhyrchu'r eitemau hyn yn Saesneg yn unig.

Mae'n rhaid i bob dogfen ar wahân nodi eu bod ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddau fersiwn o ansawdd cyfartal a byddant ar gael ar yr un amser.

Ystyriaethau		
Cynulleidfa Darged	Aelodau o'r cyhoedd lle mae galw wedi ei sefydlu am ddeunydd yn y Gymraeg	Arbenigwyr o fewn sectorau neu sectorau penodol mae'r galw am y Gymraeg yn isel iawn
A fydd yr eitem yn cael ei rhannu neu ei thrafod gan sefydliadau eraill?	- Categori A	- Categori C
Galw/tebygol - seiliedig ar asesiad gwrthrychol a/neu ymarferiad yn y goffennol neu ddiddordeb amlyg	Uchel (diddordeb ymysg y cyhoedd yn gyffredinol neu o ddiddordeb penodol i siaradwyr Gymraeg)	Isel (grwpiau arbenigol)
ymysg siaradwyr Gymraeg	- Categori A	- Categori C
Statws/Proffil allanol	Proffil allanol uchel	Proffil allanol isel
	- Categori A	- Categori C

2.3 Mae'n anochel na fydd y disgrifiad uchod o'r 3 categori yn cwmpasu pob math o ddogfen. Dylai staff ffurfio barn wrth sicrhau eu bod yn dewis categori addas ar sail gymharol wrth asesu os dylai eitemau fod yn ddwyieithog. Dylid ceisio arweiniad gan y Swyddog Cydraddoldebau os oes unrhyw ansicrwydd.

2.4 Mae Cyngor Bwrdeisdref SiroI Blaenau Gwent yn anelu i gynhyrchu mwy a mwy o ddeunydd i'r cyhoedd yn Gymraeg a disgwylir i feysydd gwasanaeth ddangos yn

fiynyddol y bu newid sylweddol wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyhoedd. Erbyn diwedd y cynllun bydd gan bob eitem yng Nghategori B gyfran uwch o gynnwys Cymraeg nag ar ddechrau'r cynllun.

2.5 Mae sgiliau yn y Gymraeg yn cynyddu ymysg plant a phobl ifanc ym Mlaenau Gwent. Mae llawer ohonynt yn mynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg ac mae pob un ohonynt wedi astudio'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae deunyddiau dwyieithog o fudd i blant a phobl ifanc a dylid rhoi blaenoriaeth iddynt ar gyfer eu cynhyrchu yn y Gymraeg.

2.6 Os yw eitem yn ddwyieithog ar hyn o bryd, yn cynnwys elfennau o Gymraeg neu ar gael yn Gymraeg ond bod y tabl yn awgrymu y dylai fod yn Saesneg yn unig, bydd yn parhau yn ei fformat presennol.

Atodiad **3** parhad.

Eitemau	A	B	C	Nodiadau Ychwanegol
Anfonebau	X			Fframwaith dwyieithog
Arddangosiadau ac Arddangosfeydd	X			Gall arddangosiadau gymmws cyhoeddiadau nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cyngor. Saesneg yn unig.
Arwyddion	X			Arwyddion mewnol ac allanol ar adeliadau'r Cyngor, arwyddion ffordd, plattiau enw stryd a marciau ffordd, datblygiadau tai newydd, enw Cymraeg yn unig neu ddwyieithog.
Bathodynau adnabod	X			Dwyieithog
Bwydlenni		X		Dwyieithog – ystyrir yn arfer da
Cardiau Busnes	X			Dwyieithog
Crynodebau Gweithredol		X		Dwyieithog – arfer da
Cyfrifon			X	h.y. cofnodion ariannol mewnol, nid hysbysiadau cyhoeddus ac ati.
Cylchlythyrau/Papurau Newydd yn cynnwys adroddiadau Tai, Cyswilt a Cymunedau yn Gyntaf	X			Dwyieithog
Cysylltiadau Clywedol, Negeseuon Electronig, Sgriniau ac ati	X			Dwyieithog
Dalenni amser			X	Saesneg
Dalenni Trosglwyddo Ffacs	X			Dwyieithog
Dalenni Cyfarch	X			Dwyieithog
Datganiadau a hysbysiadau i'r wast		X		Yn Gymraeg lle mai'r pwnc yw'r Gymraeg - cyhoeddi yn y wasg Gymraeg - Golwg, Y Cymro ac ati.
Derbynebau			X	Saesneg yn unig
Deunydd cyhoeddus/rwydd	X	X		Cynyddol ddwyieithog
Deunyddiau Etholiadol	X			Dwyieithog
Dogfennau Contract			X	Saesneg yn unig
Dogfennau ymgynghori a drafftiau gwaith		X		Saesneg yn unig os nad oes gofyniad penodol iaith Gymraeg
Enw Brand	X			Dwyieithog
Ffurflenni Cais am Swydd	X			Dwyieithog
Ffurflenni i'r Cyhoedd	X			Dwyieithog os na fyddai fersiynau ar wahân yn fwy ymarferol oherwydd eu cynhlethdod.
Gohebiaeth gyffredinol gydag unigolion neu grwpiau a restrir ar gronfa ddata.		X		<i>Dim ond</i> lle nodwyd dewis iaith y rhai ar y gronfa ddata y cynhyrchir fersiynau ar wahân, fel arall bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog.
Gwahoddiadau	X			Dwyieithog
Gwefannau a thudalennau gwe	X			Dwyieithog – mae'n rhaid i bob tudalen Saesneg fod â thudalen Gymraeg gyfatebol pan y'i rhoddir ar y wefan.
Gwybodaeth fewnol y cyngor, arolygon a holiaduron, dogfennau arweiniad, cylchlythyrau, adroddiadau ac ati			X	Saesneg yn unig
Gwybodaeth hanesyddol/archif			X	Saesneg yn unig
Holiaduron ac Arolygon	X			Dim ond os caiff yr holiadur ei anelu at unigolion neu grwpiau y mae eu dewis iaith yn hysbys y caniateir fersiynau un iaith.
Holiaduron ac Arolwg – Adborth		X		Crynodebau gweithredol yn ddwyieithog

Humanaeth Gorrforaethol y Cyngor	X			Dwyleithog
Hysbysebion	X			Dwyleithog
Hysbysebion Swydd – Microsafie Cyngor – Hysbysebion Arwyddbost mewn Papurau	X			Cymraeg yn unig lle mae'r swydd yn dynodi bod y Gymraeg yn hanfodol (gyda disgrifiad Saesneg byr), dwyleithog lle mae'r Gymraeg yn ddymunol. Saesneg yn unig lle nad oes gofyniad iaith ond 'pen a chw't' yn Gymraeg – Enw'r Swydd, Lleoliad, Gradd a Datganiad ar y gwaelod fod y Cyngor yn croesawu ceisiadau yn Gymrag ac yn Saesneg.
Hysbysiadau ar gyfer Cyfarfoddydd Cyhoeddus	X			Bydd deunydd cyhoeddusrwydd yn dweud y croesewir defnyddio'r Gymraeg - mae angen wythnos o hysbysiad
Llyfyrnau	X	X		Cynyddol ddwyleithog – cynhelir awdit
Llythyrau a Deunydd i Ysgolion		X		Lle anfonir llythyrau unigol, mae cyfrwng iaith yr ysgol yn hysbys felly meddir ysgrifennu'r llythyr yn yr iaith briodol.
Llythyrau Safonol a Chylchlythyrau i'r Cyhoedd		X		Cynyddol ddwyleithog
Mapiau	X			Dwyleithog
Marciau ar gerbydau ac arwyddion ar adeiladau	X			Yr arfer safonol yw Saesneg ar un ochr y cerbyd, Cymraeg ar y llall ond meddir newid hyn yn dibynnu ar y dyluniad
Pamffledi	X	X		Cynyddol ddwyleithog - cynhelir awdit
Papurau Pwyllgor ac Atodiadau cysylltiedig			X	Dim ond lle mae cyfeiriad penodol at faterion iaith Gymraeg, addysg cyfrwng Gymraeg neu lle gwnaed cais am gyfieithiad y caiff y rhain eu cyfieithu.
Papurau Ymchwil			X	Saesneg yn unig
Pasiau	X			Dwyleithog
Pecynnau Cais am Swydd	X			Dwyleithog
Penawdau llythyrau	X			Dwyleithog
Posterï (Mewnol ac Allanol)	X			Hollol ddwyleithog gyda'r ddwy iaith ar yr un ochr
Sticerï	X			Dwyleithog
Strategaethau/Polisiau/Cynlluniau		X		Strategaethau pennawd yn cynnwys Cynllun Cydraddoldeb, Polisi Cydraddoldebau ac ati dwyleithog
Tafenni	X			Cynyddol ddwyleithog
Tocynnau	X	X		Cynyddol ddwyleithog
Trwyddedau	X			Dwyleithog

3. Meini Prawf Cyfarfodydd

- 3.1 Canllawiau ar ba iaith/ieithoedd i gynnal cyfarfodydd. Mae'r atodiad yma'n cyfeirio at gyfarfodydd cyhoeddus yn hytrach na chyfarfodydd bach, wyneb-i-wyneb.
- 3.2 Yr opsiynau sydd ar gael yw cynnal:-
- i) cyfarfod dwyieithog (yn cynnwys deunyddiau)
 - ii) cyfarfod a gaiff gyhoeddusrwydd yn Saesneg a Chymraeg gyda chyfleusterau cyfieithu os yw'r rhai sy'n mynychu yn gofyn am hynny
 - iii) cyfarfod a gynhelir yn Saesneg yn unig.

- 3.3 Wrth ystyried p'un ai i gynnal cyfarfod yn ddwyieithog ai peidio, bydd y Cyngor yn ystyried:

- i) y gynulleidfa darged
- ii) pwnc y cyfarfod
- iii) profil y cyfarfod

3.4 Matrics Cyfarfodydd

	(i) Cyfarfod dwyieithog	(ii) Gynbig a darparu cyfieithu os gofynnir am hynny ymlaen llaw	(iii) Dim cyfleusterau cyfieithu
Y Gynulleidfa Darged	Y cyhoedd Blaenau Gwent/ Cymru neu sectorau penodol lle siaredir Cymraeg	Y cyhoedd Blaenau Gwent/ Cymru	Sector penodol lle nad oes ychydig iawn o alw am ddeunyddiau Cymraeg

Pwnc y Cyfarfod	Diddordeb Cymraeg amlwg	Diddordeb Cymraeg anhysbys	Dim diddordeb Cymraeg penodol
------------------------	-------------------------	----------------------------	-------------------------------

Proffil cyhoeddus y cyfarfod	Proffil uchel	Proffil canolig	Proffil isel
-------------------------------------	---------------	-----------------	--------------

Nodyn: 1. Bydd deunyddiau'n gysylltiedig gyda chyfarfodydd gan gategori (i) neu (ii) yn ddwyieithog i annog defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Nodyn 2: Dylai cyfarfodydd a gynhelir yn Saesneg a hefyd yn Gymraeg wneud peth defnydd ffurfiol o'r ddwy iaith i annog defnydd.

Atodiad 3

CYNLLUN GWEITHREDU AC AMSERLEN

Datblygir y Cynllun Gweithredu Sgiliau Ieithyddol yn unol gyda'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, y Cynllun Iaith Gymraeg a Chynllun Gweithredu Cydraddoldebau Corfforaethol.

Caiff yr amserlen arfaethedig y Cynllun Gweithredu Sgiliau Ieithyddol ei gweithredu yn unol gydag unrhyw newidiadau i'r ddrafft strategaeth yma yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Amcan	Cam Gweithredu	Deiliant/Dangosydd Perfformiad	Amserlen	Swyddog/ion Cyfrifol
Sicrhau fod y Strategaeth yn addas ac yn gyflawnadwy	Ymgynghori gyda phartneriaid mewnol ac allanol ar fersiwn drafft o Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	Newidiadau a wnaed fel yr awgrymwyd ac anfon drafft ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol	Tach/Rhag 2008	Swyddog Cydraddoldebau
Mabwysiadu'r strategaeth ar sail ffurfiol	Tîm Rheoli Corfforaethol/ Pwyllgor Gwaith/Cyngor i gymeradwyo Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a'r Cynllun Gweithredu	Mabwysiadu dull gweithredu yn ffurfiol	Ionawr 2009	Swyddog Cydraddoldebau/ Pennaeth Adnoddau Dynol
Canfod y sgiliau iaith sy'n bresennol yn yr Awdurdod	Cynnal Awdit Ieithyddol o staff	Darlun manwl o sgiliau iaith ymysg staff	Tach 2009	Swyddog Cydraddoldebau/ A Parker
Canfod pa swyddi ddylai gael eu dynodi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn Hanfodol neu'n Ddymunol	Edrych ar strwythurau staffio prsenol ac ystyried lefelau posibl a math cyswllt gyda'r cyhoedd	Ystod o swyddi ar draws pob Cyfarwyddiaeth a ddynodwyd fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol	Parhaus	Timau Rheoli Adrannol

Amcan	Cam Gweithredu		Deiliant/ Dangosydd Perfformiad	Amserlen	Swyddog/ion Cyfrifol
Bod â chofnod gyfredol o sgiliau iaith staff	Datblygu system ar gyfer cofnodi sgiliau iaith personol		Sefydlu cronfa ddata y medrir ei diweddarau'n rhwydd	Mehefin 2010	Adnoddau Dynol
Sicrhau y gall yr Awdurdod ddelio gydag ymholiadau mewn amrywiaeth eang o ieithoedd	Sefydlu Grŵp Gwasanaethau Iaith		Rhestr o staff ar gael ar y Fewnrwyd i ddelio gydag ymholiadau mewn amrywiaeth o ieithoedd	Ebrill 2010	Adnoddau Dynol/ Swyddog Cydraddoldebau
Sicrhau fod yr holl staff yn gwybod am ddarpariaeth y Grŵp Gwasanaethau Iaith (h.y. taflen/ mewnrwyd/sesiwn ymwybyddiaeth)	Dosbarthu rhestr o fanylion Grŵp Gwasanaethau Iaith at bob Cyfarwyddiaeth		Medru delio gyda'r cyhoedd yn eu dewis iaith heb fawr iawn o ffws	Gorffennaf 2010	Swyddog Cydraddoldebau
Sefydlu anghenion ieithoedd lleiafrifol poblogaeth Blaenau Gwent	Gweithio gyda VALREC i ddatblygu a monitro cronfa ddata o grwpiau lleiafrifol a'u hanghenion iaith o fewn y Fwrdeisdref Sirol		Sefydlu cronfa ddata y medrir ei diweddarau'n rhwydd	Medi 2010	Swyddog Cydraddoldebau /Pennaeth Adnoddau Dynol
Dynodi rhestr o ddarparwyr iaith allanol a ffafrir	Tendro ar gyfer darparydd cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer y Fwrdeisdref Sirol		Rhestr o ddarparwyr ar gael i ddarparu datrysiadau iaith cyflym	Gorffennaf 2010	Adran Caffaeliad

Amcan	Cam Gweithredu	Deiliant/ Dangosydd Perfformiad	Amserlen	Swyddog/ion Cyfrifol
Sicrhau y caiff staff rheng-flaen eu hyfforddi mewn sut i ddelio gyda chwsmeriaid gyda gwahanol anghenion iaith	Cynnwys anghenion iaith yn y rhaglen hyfforddiant gofal cwsmeriaid sylfaenol	Medru delio gyda'r cyhoedd yn eu dewis iaith heb fawr iawn o ffws	Tachwedd 2010	Rhaglenni hyfforddiant meysydd gwasanaeth
Canfod y galw neu'r angen am ddarpariaeth gwasanaethau iaith Arwyddion Prydain yn y Fwrdeisdref Sirol	Monitro'r defnydd o Ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer y Byddar ar draws yr Awdurdod	Medru rhoi darlun cyffredinol o gost darparu gwasanaethau iaith Arwyddion Prydain yn y Fwrdeisdref Sirol	Hydref 2010	Swyddog Cydraddoldeb/ Meysydd Gwasanaeth